

YSGOL MORFA NEFYN

Polisi Cydraddoldeb Hiliol



Nôd (Dyletswyddau Cyfreithiol):

Rydym wedi ymrwymo i:

1. Hyrwyddo cyfle cyfartal.
2. Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwylliannol a chrefyddol.
3. Cael gwared o wahaniaethau anghyfreithiol.

Amcanion

Cynorthwyo plant i ddatblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth, medrau ac agweddau angenrheidiol a fydd yn eu galluogi i chwarae rhan lawn, gweithredol yn ein cymdeithas amlhiliol.

Canllawiau

1. Dylai pob disgybl gael cyfleoedd i sicrhau'r safon uchaf a'r cymwysterau gorau posibl ar gyfer cyfnodau nesaf ei fywyd a'i addysg.
2. Dylid cynorthwyo pob disgybl i ddatblygu synnwyr o hunaniaeth personol a diwylliannol sy'n hyderus ac yn barod i dderbyn newidiadau, ac sy'n barod i dderbyn newidiadau, ac sy'n barod i dderbyn a dangos parch tuag at hunaniaeth pobl eraill.
3. Dylai pob disgybl ddatblygu'r wybodaeth, y dealltwriaeth a'r medrau hynny y mae arno ef/hi eu hangen er mwyn gallu cyfranogi mewn cymdeithas amlhiliol ac yng nghyd-destun ehangach byd rhyng-ddibynnol.

Cyfrifoldebau

• Y Corff Llywodraethol

1. Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Chysylltiadau Hiliol, yn cynnwys y dyletswyddau cyffredinol a phenodol a restrir yn Neddff Diwygiedig 2000.
2. Gyda chymorth y Pennaeth, cymryd y camau priodol er mwyn galluogi'r ysgol i lynu at y polisi hwn ar gydraddoldeb Hiliol.
3. Mae gan y Corff Lywodraethwr Dynodedig ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol - Mrs. Valerie Williams. Pe bai hi'n derbyn gwybodaeth am ddigwyddiad hiliol, byddai'n ei gofnodi ac yn cwblhau ffurflen a'i hanfon at yr AALL.

• Pennaeth

1. Ynghyd â'r Corff Llywodraethol, y Pennaeth sydd â chyfrifoldeb am weithredu'r mesurau priodol er mwyn galluogi'r ysgol i ddilyn y polisi hwn ar Gydraddoldeb Hiliol.
2. Sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant ac yn cael eu hysbysebu o oblygiadau'r polisi, yn cynnwys y ddeddfwriaeth berthnasol.

• Athrawon

1. Mae'r holl athrawon yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â materion cysylltiadau â Chydraddoldeb Hiliol.
2. Gŵyr athrawon sut i ymdrîn â digwyddiadau hiliol yn yr ystafell ddosbarth, sut i hyrwyddo amrywiaeth a sut i adnabod a herio rhagfarn a stereoteipio.
3. Yn eu haddysgu, mae staff yn annog perthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng disgyblion, gan sicrhau y caiff disgyblion o bob grwp hiliol ac ethnig eu cynnwys mewn pob gweithgaredd a bod ganddynt fynediad llawn i'r cwricwlwm.

4. Peidio gadael i deimladau, rhagfarnau neu ragdybiaethau personol ynghylch grwpiau hiliol neu ethnig effeithio ar sut maent yn trin disgyblion penodol, rhieni, neu aelodau eraill o staff.

• **Staff Ategol**

Mae'r holl staff ategol yn gyfrifol am sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu wrth gyflawni eu dyletswyddau, nac yn gadael i deimladau, rhagfarnau neu ragdybiaethau personol ynghylch grwpiau hiliol neu ethnig effeithio ar sut maent yn trin disgyblion penodol, rhieni, neu aelodau eraill o staff.

• **Ymwelwyr a Chontractwyr sy'n gweithio ar y safle**

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod pob ymwelydd neu gontractwr sy'n gweithio ar y safle yn ymwybodol o safiad yr ysgol ar gydraddoldeb hiliol ac achosion o aflonyddu hiliol.

Y Cwricwlwm

1. Rydym yn hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol yn y cwricwlwm drwy addysgu cynnwys amrywiol diwylliannol mewn dull cadarnhaol, adolygu dogfennaeth er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn briodol a thrwy feithrin parch tuag at bobl o wahanol grwpiau hiliol ac ethnig.
2. Trwy gyfrwng amrywiaeth o brofiadau dysgu, gall y plant archwilio cyfraniadau gwahanol grwpiau diwylliannol, hiliol a chrefyddol yn ein cymdeithas, tra ar yr un pryd ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o grwpiau o'r fath.
3. Gwnawn bob ymdrech i sicrhau y caiff pob disgybl fynediad i'r cwricwlwm llawn trwy gymryd i ystyriaeth eu cefndiroedd diwylliannol a'u hanghenion ieithyddol unigol.
4. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau y gall pob disgybl gyfranogi a theimlo bod eu cyfraniadu'n cael eu gwerthfawrogi. Anogwn disgyblion o bob cefndir i gydweithio gan ddangos cydweithrediad a dealltwriaeth, gan ddysgu oddi wrth brofiadau amrywiol ei gilydd. Mae ein haddysgu yn herio srereoteipiau hiliol ac rydym yn meithrin ymwybyddiaeth beirniadol disgyblion o ragfarn, anghyfartaledd ac anghyfiawnder.

Cefnogaeth Fugeiliol

Byddwn yn ystyried gwahaniaethau crefyddol ac ethnig a phrofiadau plant sy'n ffoaduriaid ac sy'n ceisio lloches neu unrhyw grŵp arall sydd dan anfantais, fel bo'r angen.

Rydym yn darparu cefnogaeth briodol ar gyfer y disgyblion hynny y mae Saesneg (a'r Gymraeg) yn iaith ychwanegol iddynt, mewn ymgynghoriad â'r AAL.

Mae disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn derbyn cefnogaeth.

Ymddygiad a Disgyblaeth

Mae gennym ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad pob disgybl sydd yn yr ysgol. Caiff pob disgybl ei drin yn deg ac heb wahaniaethu yn ei erbyn pan gaiff ei ddisgyblu am ymddygiad sy'n tarfu. Ymdrinnir yn gadarn ac yn gyson â diwygyddiadau o natur hiliol a chynhelir ymchwiliad llawn i bob honiad o aflonyddu neu bryfocio hiliol.

Mynediad a Phresenoldeb

Mae gan yr ysgol bolisi mynediad agored a byddwn yn derbyn cymaint o ddisgyblion ac y mae lle iddynt fel y pennwyd gan yr AAL. Cofnodir presenoldeb yn ofalus, ac os yw'n berthnasol, gellir monitro hynny yn ôl grwpiau ethnig.

Casgliad

Mae'r holl blant sydd wedi bod yn Ysgol Bro Cynfal, a'r rhai sydd yma ar hyn o bryd, o dras Ewropeaidd, ond mewn byd sy'n brysur newid mae'n rhaid i ni fod â'r strategaethau angenrheidiol yn eu lle at y dyfodol. Oherwydd nad ydym yn medru gwneud llawer o'r gwaith hyrwyddo positif gyda'r

disgyblion sydd yn yr ysgol, byddwn yn gwneud pob ymdrech i ymgyfarwyddo'r disgyblion â'r maes - rydym wedi penderfynu mabwysiadau plentyn o Affrica, rydym am drefnu ymweliad i Eisteddfod Llangollen yn rheolaidd ac mae'r palnt yn gyrru blychau i Operation Christmas Child ers rhai blynnyddoedd.

Mabwysiadwyd (Dyddiad)

Arwyddwyd

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ysgol Morfa Nefyn

Asesu Effaith Y Polisi Cydraddoldeb Hiliol 2010 - 2011

1. Cyrhaeddiad, cynnydd ac asesu A gaiff cyrhaeddiad disgyblion a data cynnydd eu monitro yn ôl y gwahanol grwpiau hil ac a adnabyddir unrhyw dangyrhaeddiad?	1	2	3
2. Mynediad a phresenoldeb - A yw'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion yn ôl grŵp hil? - A yw'r polisiau mynediad yn sicrhau mynediad cyfartal i ddisgyblion o bob grŵp hil?	1 1	2 2	3 3
3. Ymddygiad, disgyblaeth a gwaharddiadau - A sicrhair bod gweithdrefnau disgyblu yn deg ac yn gyfiawn ar gyfer disgyblion o bob grŵp hil? - A yw pob aelod o staff yn gweithredu systemau cyson o wobrwyo a chosbi? - Sut caiff gwaharddiadau eu monito i sefydlu patrymau a thueddiadau?	1 1 1	2 2 2	3 3 3
4. Cwricwlwm - A yw'r cwricwlwm yn ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb hiliol ac yn hybu agweddau positif tuag at amryfaliaeth? - A gaiff disgyblion gyfle i archwilio materion sy'n cael eu perthnasu â hunaniaeth, cydraddoldeb hiliol a hiliaeth?	1 1	2 2	3 3
5. Datblygiad personol a gofal bugeiliol - A yw cefnogaeth fugeiliol yr ysgol yn rhoi ystyriaeth i wahaniaethau crefyddol ac ethnig ac i anghenion grwpiau arbennig o ddisgyblion e.e. teithwyr Sipsi / Roma? - Pa gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr hiliaeth ac aflonyddwch hiliol?	1 1	2 2	3 3
6. Addysgu a dysgu A greir awyrgylch ble gall pob disgybl gyfrannu'n llawn a theimlo'i hunan-	1	2	3

werth? • A yw'r addysgu yn rhoi ystyriaeth i gefndir diwylliannol disgyblion, eu hanghenion ieithyddol a gwahanol arddulliau dysgu? • A roddir gwerth ar wahanol draddodiadau diwylliannol? • Sut mae athrawon yn herio stereoteipio?	1 1 1	2 2 2	3 3 3
7. Hiliaeth, aflonyddwch hiliol ac ethos yr ysgol • Sut mae'r ysgol yn hybu perthnasau personol a chymuned da? • Sut y cofnodir, yr ymchwilir, ac yr adroddir i'r AALL am hiliaeth ac aflonyddwch hiliol?	1 1	2 2	3 3
1 = cadarn 2 = angen gweithredu pellach 3 = ddim yn berthnasol i sefyllfa'r ysgol			
Sylwadau			